



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

DYDDIAD 29 Ionawr 2019

GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

RhS30C – Gosod OS yn Senedd y DU sy'n diwygio deddfwriaeth mewn maes datganoledig

Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio

- Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007
- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r Offeryn Statudol (OS) sy'n gorfodi rhwymedigaethau ar y DU i ddarparu data ystadegol penodol i Eurostat, swyddfa ystadegol y Comisiwn Ewropeaidd, at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Set o amrywiol gyfreithiau'r UE a ddargedwir, fel y'u nodir yn yr atodlen i'r OS, sy'n gosod y safonau a'r dosbarthiadau ystadegol y mae'n rhaid i ddata ystadegol eu bodloni at ddibenion paratoi ystadegau Ewropeaidd.
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Gan mai natur dechnegol yn unig sydd i'r OS, nid yw'n cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol nac ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) mewn perthynas â darparu gwybodaeth ystadegol.

Bydd y rheoliadau yn diweddar cyfeiriadau at "rwymedigaethau'r UE" a "deddfwriaeth yr UE" yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 gyda chyfeiriadau cyfatebol at y gyfraith yr UE a ddargedwir. Bydd y rheoliadau yn gwneud un newid cyfatebol yn Neddf Diogelu Data 2018.

Bydd y rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 a Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyflenwyr Trydan (Diwygio a Thrydan a Eithrir) 2015 fel bod modd parhau i gyfeirio at ddsbarthiad o weithgarwch economaidd.

Yn olaf, bydd y rheoliadau yn dirymu swm mawr o'r gyfraith yr UE (Rheoliadau a Phenderfyniadau) bresennol mewn perthynas â darparu a chasglu ystadegau ar lefel yr UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-uk-statistics-amendment-etc-eu-exit-regulations-2019>

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio ag OS ar gyfer y DU gyfan yn sicrhau dull cyson pryd bynnag y bo modd wrth baratoi'r llyfr statud fel ei fod yn gweithio'n iawn ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bydd gweithredu fel hyn yn hyrwyddo eglurder a hygyrchedd deddfwriaeth ar draws y DU. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.